*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 948 (Cy. 41)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Gorchymyn Dociau a Harbyrau (Gwerthoedd Ardrethol) (Cymru) 2000

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud - -* | *31 Mawrth 2000* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 140(4), 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**),a pharagraffau 3(1), (3) a (4) o Atodlen 6 iddi, sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru.

**Cymhwyso, enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn, sy'n gymwys i Gymru yn unig, yw Gorchymyn Dociau a Harbyrau (Gwerthoedd Ardrethol) (Cymru) 2000 a daw i rym ar 1 Ebrill 2000.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "balans perthnasol" ("*relevant balance*") mewn perthynas ag ymgymeriad a chyfnod yw 92.5 y cant o incwm perthnasol yr ymgymeriad hwnnw am y cyfnod, llai 100 y cant o'i wariant perthnasol am y cyfnod;

ystyr "balans wedi'i addasu" ("*adjusted balance*") mewn perthynas ag ymgymeriad a chyfnod yw 92.5 y cant o incwm wedi'i addasu yr ymgymeriad am y cyfnod llai 100 y cant o'i wariant wedi'i addasu am y cyfnod;

ystyr "blwyddyn" ("*year*"), oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, yw blwyddyn ariannol daladwy; ac mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ystyr "blwyddyn flaenorol berthnasol" ("relevant preceding year") yw'r flwyddyn yn diweddu yn union cyn y flwyddyn o dan sylw;

(**1**) 1988 p. 41 Gweler adran 146(6) i gael y diffiniad o "prescribed". Diwygiwyd adran 143(2) gan baragraff 72(2) o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42) . Diwygiwyd paragraff 3(1) o Atodlen 6, a mewnosodwyd paragraffau 3(3) a 3(4), gan baragraff 38(12) a (14) o Atodlen 5 i Ddeddf 1989. Mae'r pwerau hyn wedi'u datganoli, mewn perthynas â Chymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); gweler y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn Atodlen 1.

ystyr "cyfnod" ("*period*") mewn perthynas ag ymgymeriad yw'r cyfnod cyfrifydda y cyfeirir ato er mwyn llunio cyfrifon yr ymgymeriad;

ystyr "gwariant perthnasol" ("*relevant expenditure*") mewn perthynas ag ymgymeriad a chyfnod yw'r holl wariant a gynhwyswyd neu sydd i'w gynnwys yng nghyfrif refeniw neu gyfrif elw a cholled yr ymgymeriad am y cyfnod, p'un a yw'n deillio o'r gweithrediadau a gyflawnwyd o dan yr awdurdod y cyfeirir ato yn erthygl 3(1)(a) neu fel arall, heblaw —

(i) gwariant mewn perthynas ag arweiniad;

(ii) gwariant —

(a) mewn perthynas â buddsoddiadau y mae'n ofynnol eu dangos yng nghyfrifon yr ymgymeriad (heblaw gwariant mewn perthynas â buddsoddiadau mewn is-gwmnïau);

(b) y'n llogau sy'n daladwy mewn perthynas â benthyciadau neu wariant mewn perthynas â llogau o'r fath;

(c) sy'n daliadau ar gyfer rheoli eiddo sy'n cael ei osod allan ac sy'n hereditament neu sy'n ffurfio rhan o hereditament a ddangosir ar unrhyw restr ardrethu annomestig, neu wariant mewn cysylltiad â rheoli o'r fath;

(iii) gwariant a dynnir mewn perthynas â gwaredu tir; a

(iv) symiau a ddilëir mewn perthynas â dibrisiant.

Ystyr "gwariant wedi'i addasu" ("adjusted expenditure") mewn perthynas ag ymgymeriad a chyfnod yw swm gwariant perthnasol yr ymgymeriad am y cyfnod wedi'i luosi â chynnyrch

$$\frac{P}{Y}$$

Ystyr "incwm perthnasol" ("*relevant income*") mewn perthynas ag ymgymeriad a chyfnod yw'r holl incwm refeniw a gynhwyswyd neu sydd i'w gynnwys yng nghyfrif refeniw neu gyfrif elw a cholled yr ymgymeriad am y cyfnod, p'un a yw'n deillio o'r gweithrediadau a gyflawnir o dan yr awdurdod y cyfeirir ato yn erthygl 3(1)(a) neu fel arall, ond heb gynnwys —

(i) incwm mewn perthynas ag arweiniad;

(ii) incwm —

(a) o fuddsoddiadau y mae'n ofynnol eu dangos yng nghyfrifon yr ymgymeriad (heblaw buddsoddiadau mewn is-gwmnïau);

(b) benthyciadau neu adneuon;

(c) rhent neu daliadau eraill y gellir eu derbyn yn dâl am roi caniatâd i feddiannu neu i ddefnyddio unrhyw eiddo sydd gan yr ymgymeriad, neu hawl dros eiddo o'r fath, sy'n hereditament neu sy'n ffurfio rhan o hereditament a ddangosir ar unrhyw restr ardrethu annomestig;

(ch) unrhyw swm y gellir ei dderbyn mewn perthynas â gwaredu tir.

ystyr "incwm wedi'i addasu" ("*adjusted income*") mewn perthynas ag ymgymeriad a chyfnod yw swm incwm perthnasol yr ymgymeriad am y cyfnod hwnnw wedi'i luosi â chynnyrch

$$\frac{P}{Y}$$

a —

P yw mynegai prisiau manwerthol Medi 1997, a

Y yw mynegai prisiau manwerthol y mis Medi yn ystod y cyfnod o dan sylw, oni bai bod mis sylfaenol mynegai ar gyfer y mis Medi hwnnw yn wahanol i fis sylfaenol mynegai Medi 1997, ac os felly Y yw'r ffigur a gyfrifir at ddibenion paragraff 5(5) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 fel y ffigur y byddai mynegai'r mis Medi yn ystod y cyfnod wedi bod pe bai mis sylfaenol y mynegai wedi bod yr un fath yn y ddau achos;

mae i "is-gwmni" yr ystyr a roddir i "*subsidiary*" gan adran 736 o Ddeddf Cwmnïau 1985(**2**);

### Cymhwyso

**3.**—(1) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys, ac eithrio yn yr achosion a ddisgrifir ym mharagraffau (2) i (4):

(a) i unrhyw hereditament sy'n ymgymeriad doc neu harbwr a gyflawnir o dan awdurdod a roddir gan unrhyw ddeddfiad neu odano, a

(b) mewn perthynas â rhestr ardrethu annomestig (y "rhestr berthnasol") a lunnir ar 1 Ebrill 2000 y mae hereditament o'r fath i fod i gael ei ddangos ynddi.

(2) Nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys —

(a) os nad oedd incwm perthnasol yr ymgymeriad doc neu harbwr yn fwy na £1,000,000:

(i) mewn unrhyw gyfnod o ddeuddeng mis yn diweddu yn ystod y flwyddyn yn diweddu â 31 Mawrth 1998, neu, os nad oes un,

(ii) yn y deuddeng mis yn diweddu â chyfnod sy'n diweddu yn y flwyddyn honno (ac os oes mwy nag un cyfnod o'r fath, yr un diwethaf), neu, os nad oes un,

(iii) yn y deuddeng mis yn diweddu ar 31 Mawrth 1998; neu

(b) os yw'r personau sy'n cyflawni'r ymgymeriad doc neu harbwr yn defnyddio'r doc neu'r harbwr yn unig neu yn bennaf er mwyn dod â nwyddau neu dderbyn nwyddau —

a weithgynhyrchwyd neu a gynhyrchwyd ganddynt; neu

sydd i'w defnyddio ganddynt i weithgynhyrchu neu i gynhyrchu nwyddau neu drydan; neu

sydd i'w gwerthu ganddynt; neu

a weithgynhyrchwyd neu a gynhyrchwyd gan gorff cysylltiedig, ac sydd i'w gwerthu gan y corff hwnnw.

(3) At ddibenion paragraff (2), trinnir corff fel corff cysylltiedig unrhyw bersonau —

(a) os yw'n gorff corfforaethol y mae'r personau hynny yn perchenogi neu'n rheoli yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol nid llai na 51 y cant o'i gyfalaf cyfranddaliadau a ddyroddwyd; neu

(b) os yw'n gorff corfforaethol y mae'r personau hynny ac unrhyw gorff neu gyrff cysylltiedig sydd ganddynt yn perchenogi neu'n rheoli yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol nid llai na 52 y cant o'i gyfalaf cyfranddaliadau a ddyroddwyd.

(4) Heblaw er mwyn cyfrifo incwm perthnasol neu wariant perthnasol, nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys i hereditament a feddiennir gan y personau sy'n cyflawni ymgymeriad doc neu harbwr nad yw yn dir gweithredol yn unig. Yn y paragraff hwn, ystyr "tir gweithredol" yw tir a ddefnyddir er mwyn cyflawni'r ymgymeriad, nad yw'n dir sydd, o ran ei natur a'i leoliad, i'w gymharu â thir yn gyffredinol yn hytrach nag â thir a ddefnyddir er mwyn cyflawni ymgymeriadau statudol (o fewn ystyr Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990)(**3**).

### Gwerthoedd ardrethol

**4.**—(1) Ni fydd paragraffau 2 i 2C o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**4**) yn gymwys i unrhyw hereditament y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddo; a phennir gwerth ardrethol unrhyw hereditament o'r fath yn unol â'r erthygl hon.

(**2**) 1985 p.6. Disodlwyd adran 736 gan adran 144(1) o Ddeddf Cwmnïau 1989 (p.40).
(**3**) 1990 p8.
(**4**) Diwygiwyd paragraff 2, a mewnosodwyd paragraff 2A a 2B, gan baragraff 38(3) i (11) o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42). Mewnosodwyd paragraff 2C gan adran 2 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 (p.29).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraffau (4) a (5), bydd gwerth ardrethol unrhyw hereditament y mae'r gorchymyn hwn yn gymwys iddo am y flwyddyn yn dechrau ar 1 Ebrill 2000 yn swm sy'n gyfartal â 20 y cant o falans perthnasol yr ymgymeriad —

(i) am gyfnod o ddeuddeng mis yn diweddu yn ystod y flwyddyn yn diweddu â 31 Mawrth 1998, neu, os nad oes un,

(ii) am y deuddeng mis yn diweddu â chyfnod sy'n diweddu yn y flwyddyn honno (ac os oes mwy nag un cyfnod o'r fath, yr un diwethaf), neu, os nad oes un,

(iii) am y deuddeng mis yn diweddu â 31 Mawrth 1998.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraffau (4) i (6), am unrhyw flwyddyn ddilynol y mae'r rhestr berthnasol yn effeithiol ar ei chyfer, bydd gwerth ardrethol unrhyw hereditament y mae'r gorchymyn hwn yn gymwys iddo yn swm sy'n gyfartal â 20 y cant o'r balans wedi'i addasu ar gyfer yr ymgymeriad —

(i) am gyfnod o ddeuddeng mis yn diweddu yn ystod y flwyddyn flaenorol berthnasol, neu, os nad oes un,

(ii) am y deuddeng mis yn diweddu â chyfnod sy'n diweddu yn y flwyddyn flaenorol berthnasol honno (ac os oes mwy nag un cyfnod o'r fath, yr un diwethaf) neu, os nad oes un,

(iii) am y deuddeng mis yn diweddu â'r flwyddyn honno.

(4) Os yw'r swm sy'n gyfartal â 20 y cant o X, mewn perthynas â blwyddyn ac ymgymeriad, yn fwy na 13 y cant o Z, ni fydd paragraff (2) neu, yn ôl fel y digwydd, paragraff (3), yn gymwys, a bydd y gwerth ardrethol am y flwyddyn honno yn gyfartal â 13 y cant o Z.

(5) Os yw'r swm sy'n gyfartal â 20 y cant o X , mewn perthynas â blwyddyn ac ymgymeriad, yn llai na 5 y cant o Z, ni fydd paragraff (2) neu, yn ôl fel y digwydd, paragraff (3) yn gymwys, a bydd y gwerth ardrethol am y flwyddyn honno yn gyfartal â 5 y cant o Z.

(6) Os byddai'r gwerth ardrethol a bennid o dan baragraff (3), neu, yn ôl fel y digwydd, paragraff (4) neu (5), mewn perthynas â blwyddyn yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2001 ac ymgymeriad, yn wahanol i'r gwerth ardrethol am y flwyddyn flaenorol berthnasol o ddim mwy nag 20 y cant o'r gwerth ardrethol hwnnw, ni fydd y paragraff o dan sylw yn gymwys, a bydd y gwerth ardrethol am y flwyddyn honno yr un fath â'r gwerth ardrethol am y flwyddyn flaenorol berthnasol.

(7) At ddibenion paragraffau (4) a (5) —

X am y flwyddyn yn dechrau ar 1 Ebrill 2000 yw'r balans perthnasol ac am y blynyddoedd dilynol yw'r balans wedi'i addasu;

Z am y flwyddyn yn dechrau ar 1 Ebrill 2000 yw'r incwm perthnasol ac am y blynyddoedd dilynol yw'r incwm wedi'i addasu;

cyfrifir X a Z am y flwyddyn yn dechrau ar 1 Ebrill 2000 am y cyfnod a ddisgrifir ym mharagraff (2)(i) neu, os nad oes cyfnod o'r fath, am y cyfnod a ddisgrifir ym mharagraff (2)(ii) neu, os nad oes cyfnod o'r fath, am y cyfnod a ddisgrifir ym mharagraff (2)(iii);

cyfrifir X a Z am y blynyddoedd dilynol am y cyfnod a ddisgrifir ym mharagraff (3)(i) neu, os nad oes cyfnod o'r fath, am y cyfnod a ddisgrifir ym mharagraff (3)(ii) neu, os nad oes cyfnod o'r fath, am y cyfnod a ddisgrifir ym mharagraff (3)(iii).

(8) Os byddai unrhyw werth ardrethol a bennid o dan yr erthygl hon yn cynnwys ffracsiwn o bunt (heblaw yn y paragraff hwn) —

(a) os byddai'r ffracsiwn yn fwy na 50c, câi ei godi i un bunt, a

(b) os byddai'r ffracsiwn yn 50c neu lai, câi ei anwybyddu.

## Diddymiadau ac eithriadau

**5.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), diddymir y canlynol drwy hyn —

Gorchymyn Dociau a Harbyrau (Gwerthoedd Ardrethol) 1989(**5**);

Gorchymyn Dociau a Harbyrau (Gwerthoedd Ardrethol) (Diwygio) 1994(**6**).

**5.**—(2) Bydd y Gorchmynion a grybwyllir ym mharagraff (1) yn parhau'n effeithiol ar ac ar ôl 1 Ebrill 2000 at y dibenion canlynol, ac at ddibenion sy'n gysylltiedig â hwy —

unrhyw addasiad i restr ardrethu annomestig leol a lunnir cyn 1 Ebrill 2000; neu

unrhyw ddarpariaeth a wneir gan reoliadau o dan adran 58(**7**) (darpariaeth arbennig ar gyfer 1995 ymlaen) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ynghylch y swm taladwy ar gyfer hereditament am gyfnod perthnasol fel y'i diffinnir yn yr adran honno.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**8**)).

*D. Elis Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

31 Mawrth 2000

(**5**) O.S. 1989/2473, a ddiwygiwyd gan O.S. 1994/3280.
(**6**) O.S. 1994/3280.
(**7**) Diwygiwyd Adran 58 gan baragraff 68 o Atodlen 13 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p.14), adran 2 o Ddeddf Ardrethu Annomestig 1994 (p.3) ac adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 (p.29).
(**8**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn.)*

Caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy gyfrwng gorchymyn, o dan baragraff 3(1) o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ddarparu nad yw hereditamentau, yng Nghymru, o unrhyw ddosbarth i gael eu prisio ar gyfer ardrethu annomestig ar y sail a nodir ym mharagraffau 2 i 2C o'r Atodlen honno (hynny yw, drwy gyfeirio at y rhent y byddai tenant damcaniaethol yn ei dalu am yr hereditament ar sail flynyddol), ond yn hytrach ar sail rheolau a nodir yn y gorchymyn.

Yn ôl erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn, mae gwerth ardrethol hereditamentau sy'n ymgymeriadau dociau neu harbyrau sy'n cael eu cyflawni o dan awdurdod unrhyw ddeddfiad i gael ei bennu ar sail y rheolau a nodir yn erthygl 4, ac eithrio yn achos mân ymgymeriadau penodol, sef yn y bôn y rhai ag incwm perthnasol o lai na £1,000,000 ym 1998, a dociau a harbyrau a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu yn bennaf gan y person sy'n eu gweithredu, neu gan bersonau sy'n gysylltiedig â hwy, at eu dibenion eu hunain.

Mae erthygl 4 yn darparu y bydd gwerth ardrethol hereditamentau o'r fath, am flwyddyn ariannol daladwy, yn swm sy'n gyfartal â 20 y cant o'r balans rhwng swm ar gyfer incwm a swm ar gyfer gwariant yr ymgymeriad (a'r ddau swm yn cael eu cyfrifo yn unol a'r Gorchymyn) yn ddarostyngedig i drothwy penodol.

Mae Erthygl 5 yn diddymu, gydag eithriadau, ddarpariaethau Gorchymyn Dociau a Harbyrau (Gwerthoedd Ardrethol) 1989 (fel y'i diwygiwyd), i'r graddau yr oedd yn gymwys mewn perthynas â rhestri ardrethu annomestig lleol ar gyfer Cymru a luniwyd ar 1 Ebrill 1990 a 1 Ebrill 1995.